Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
Welsh European Funding Office
Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Finance and Corporate Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Paratoadau ar gyfer Terfynu Rhaglen Iwerddon Cymru 2014-2020**

**Bwletin Hawliadau Terfynol**

Wrth inni symud tuag at derfynu llawer o Weithrediadau, rhaid cofio bod nifer o bethau pwysig i'w hystyried wrth fynd drwy'r broses hawliadau terfynol ar gyfer yr holl Weithrediadau yn Rhaglen Iwerddon Cymru 2014-2020.

## Y dyddiadau cau ar gyfer hawliadau terfynol

Mae amodau penodol yn y cytundebau ariannu (contract) sy'n ymwneud â therfynu prosiectau. Mae'r amodau hynny'n cynnwys y gofyniad i sicrhau bod manylion gweithgarwch prosiectau'n cael eu nodi yn y proffil cyflenwi, a bod hawliadau ac adroddiadau gwerthuso'n cael eu cyflwyno i WEFO.

Gofynnir i fuddiolwyr gyflwyno eu hawliadau terfynol o fewn tair wythnos i ddiwedd y cyfnod hawliadau terfynol, a'r Adroddiad Gwerthuso Terfynol o fewn chwe wythnos er mwyn helpu i ryddhau'r taliadau terfynol yn brydlon.

## Adroddiadau Gwerthuso

Caiff gwerthusiad ei gwblhau ar ddiwedd oes pob gweithrediad. Mae'r Gyd-ysgrifenyddiaeth a WEFO yn parhau i annog prosiectau i gyflwyno Adroddiadau Gwerthuso'n gynnar er mwyn caniatáu iddynt gael eu cynnwys yn gywir yn y System Rheoli Gwybodaeth Rhaglenni a Phrosiectau (PPIMS). Serch hynny, er gwaethaf y trefniadau gorau, mae perygl na fydd cost y gwerthusiad yn cael ei thalu nes bod y Gweithrediad wedi mynd heibio i ddiwedd ei oes gymeradwy.

O dan Reolau Cymhwysedd Iwerddon Cymru (Rheol 12), nid yw trafodiadau sy'n cael eu talu y tu allan i oes y gweithrediad yn gymwys, ac nid yw'r System Rheoli Gwybodaeth yn derbyn trafodiadau sydd â dyddiad talu ar ôl y dyddiad hwnnw.

Mewn achosion lle y gallai'r oedi cyn cwblhau gwerthusiad beri i gostau fod yn anghymwys, mae WEFO yn cynghori Gweithrediadau i roi trafodiad ar eu Rhestr Trafodion gyda dyddiad talu o fewn oes y Gweithrediad, ac naill ai'r gost derfynol neu'r amcangyfrif mwyaf cywir o'r gost derfynol sydd i'w hawlio. Cofiwch nodi lle y bu angen gwneud hynny yn y Golofn Sylwadau Ariannol.

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RegioStars Winner 2008, 2009, 2011 & 2014
EU Regional Policy Regions of Excellence Winner 2011

Swyddfa Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil Office
Rhydycar / Rhydycar
Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil
CF48 1UZ

Ffôn / Tel: 0300 062 8994.
E-Bost/E-Mail:WEFOPayments@gov.wales

Ar ôl talu'r anfoneb derfynol, bydd yn rhaid ichi roi tystiolaeth o'r hyn sydd wedi ei dalu i dîm Taliadau WEFO, hy datganiad banc, a chopi o'r anfoneb derfynol. Ar ôl ichi ddarparu'r dystiolaeth hon, os bydd angen, bydd y Swyddog Taliadau yn diwygio'r swm yn yr hawliad terfynol ac yn cynnwys naratif sy'n cynnwys manylion y newid i'r hawliad terfynol gan nodi'r dyddiad talu a'r swm cywir.

Gofynnir i fuddiolwyr gyflwyno'r canlynol:

Ffurflen hawliad terfynol – o fewn 3 wythnos i ddiwedd cyfnod yr hawliad terfynol.
Adroddiad Gwerthuso Terfynol – o fewn chwe wythnos i ddiwedd yr adroddiad ar yr hawliad terfynol (hy os nad yw'r adroddiad wedi ei gyflwyno ar yr un pryd â'r hawliad terfynol).

Ni fydd WEFO yn talu'r hawliad terfynol, gan gynnwys costau'r gwerthusiad, nes bod y dogfennau hyn wedi dod i law; bod y Swyddog Taliadau wedi diwygio swm y trafodiad (os bydd angen gwneud hynny); bod naratif wedi ei ychwanegu sy'n rhoi manylion y newid i'r hawliad terfynol, ynghyd â'r dyddiad talu cywir; a bod yr holl ofynion terfynu eraill wedi cael eu cwblhau.

Nodwch: y broses hon ar gyfer Adroddiadau Gwerthuso yw'r unig eithriad i Reol 12. Ystyrir bod trafodiadau ar gyfer unrhyw gostau eraill sydd wedi eu cynnwys yn yr hawliad, sydd naill ai â dyddiadau talu anghywir neu sy'n symiau sydd wedi eu hamcangyfrif yn fras, yn anghymwys, ac y byddant yn cael eu dileu o'r hawliad a bydd y cyllid cysylltiedig yn cael ei golli.

Y dyddiad terfynol ar gyfer gwariant cymwys yn Rhaglenni Gweithredol 2014-2020 yw 31 Rhagfyr 2023, ac ni fydd unrhyw wariant a delir mewn gwirionedd ar ôl y dyddiad hwn (gan gynnwys costau gwerthuso) yn gymwys.

**Terfynu Gweithrediadau**

Argymhellir bod holl staff y prosiectau'n sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r gofynion a nodir yng nghanllawiau arferion gorau WEFO – https://llyw.cymru/cronfeydd-strwythurol-yr-ue-2014-i-2020-paratoi-ar-gyfer-cau-prosiect.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y bwletin hwn, mae croeso ichi gysylltu â'ch Swyddog Taliadau Arweiniol, Maria Wigfall neu finnau.

Tony Layzell

Pennaeth Llywodraethu Ariannol